



Yr Holocaust a Chymru

Yr Iaith Gymraeg

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio
Symudedd Pobl (CASP) ym
Mhrfysgol Aberystwyth



Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas
Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan
Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)



Yr Holocost a Chymru

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar hanes Kate Bosse-Griffiths, ffoadur Almaenig-Iddewig, a ffodd i Gymru ac a ddaeth yn ffigwr blaenllaw yn y mudiad i warchod yr iaith Gymraeg. Ysgrifennodd lyfrau a barddoniaeth yn Gymraeg ac ymgyrchu am fwy o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg.

Mae'n cynnwys:

- Bywgraffiad byr o Kate Bosse-Griffiths
- Dolenni i glipliau sain o recordiadau hanes llafar o Heini Gruffudd, mab Kate
- *Hedyn*, cerdd a ysgrifennwyd gan Kate yn 1971 (gyda chyfieithiad Saesneg)
- Ffotograff o Kate Bosse-Griffiths a J. Gwyn Griffiths ar ddiwrnod eu priodas, Pontypridd, 1939
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), ['Diffinio'r Holocost'](#), cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd [Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost](#).



Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Kate Bosse-Griffiths

Ganed Käthe (Kate) Bosse-Griffiths yn Wittenberg, yr Almaen yn 1910. Roedd ei thad, Paul Bosse, yn brif lawfeddyg yn yr ysbyty lleol tra bod ei mam, Käthe arall, yn dod o deulu Iddewig. Er bod rhieni Käthe yn Iddewig, magwyd hi (fel ei merch Kate) yn Gristion. Ar ôl i Ddeddfau Nuremberg gael eu pasio yn 1935, fodd bynnag, cafodd hi a'i phlant eu dosbarthu'n Iddewon.

Derbyniodd Kate ddoethuriaeth mewn cerfluniaeth Eifftaidd, o Brifysgol Munich a chafodd swydd yn yr Amgueddfa Eifftolegol yn Berlin. Diswyddwyd hi ar ddiwedd 1936 pan ddatgelodd gydweithiwr ei thras Iddewig. Fe wnaeth hi ffoi o'r Almaen a dewis Prydain fel cyrchfan iddi, gan gyrraedd ym mis Ionawr 1937. Cafodd swydd ym Mhrifysgol Rhydychen ym 1939, a chyfarfod ei darpar ŵr, John Gwyn Griffiths.

Priododd y ddau yn gyflym ym mis Medi 1939, yn rhannol oherwydd ofnau y byddai Kate yn cael ei dosbarthu fel gelyn estron a'i charcharu. Lladdwyd mam Kate yn y pen draw yng ngwersyll-garchar Ravensbrück, er i rai aelodau eraill o'r teulu oroesi'r rhyfel. Symudodd Kate a Gwyn i Gymru, lle cofleidiodd Kate achos y Gymraeg, gan ysgrifennu barddoniaeth a straeon byrion a'u cyflwyno (yn llwyddiannus) mewn cystadlaethau.

Ar y cychwyn, helpodd Gwyn hi gyda chyfieithu i'r Gymraeg, ond daeth yn rhugl yn fuan. Roedd tirwedd Cymru yn ei hatgoffa o goedwigoedd duon yr Almaen, a'r 'natur ddi-nod go iawn, y peth yr oeddwn wedi ei golli cymaint yn nhrefnuswydd hyfryd cefn gwlad Lloegr'.



Roedd Kate a Gwyn yn aelodau blaenllaw o Gylch Cadwgan, grŵp llenyddol Cymraeg a enwyd ar ôl mynydd lleol. Cyhoeddodd ei nofel gyntaf, *Anesmwyth Hoen*, yn 1941, ac yn 1942 enillodd gystadleuaeth y stori fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberteifi gyda *Y Bennod Olaf*. Roedd elfen hunangofiannol i nifer o'i gweithiau, gan ymgorffori themâu Almaeneg ac Ewropeaidd.

Symudodd y teulu i Abertawe wedi diwedd y rhyfel, lle daeth Kate yn guradur casgliad Eifftaidd y brifysgol. Parhaodd i ysgrifennu i'r wasg Gymraeg, gan gefnogi creu Cymdeithas yr Iaith yn 1962. Cafodd hyd yn oed ddirwy am wrthod talu tocyn parcio a gafodd ei ysgrifennu yn Saesneg. Bu farw yn 1998. Mae ei meibion yn parhau â'i hangerdd dros yr iaith Gymraeg. Mae ei mab hynaf, Robot, yn rhedeg gwasg gyhoeddi Y Lolfa, tra bod ei mab ieuengaf, Heini, yn awdur sydd wedi ysgrifennu nifer o lyfrau ar ddysgu Cymraeg.

Darllen pellach:

- Heini Gruffudd, Yr Erlid (Y Lolfa, 2012)
- <https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/cefndir-y-ffoaduriaid/proffiliau-ffoaduriaid/kate-bosse-griffiths/>

Ffynhonnell hanesyddol 2: [Clip Sain: Heini Gruffudd yn trafod agwedd Kate Bosse-Griffiths at y Gymraeg](#)



Ffynhonnell hanesyddol 3: [Clip Sain: Heini Gruffudd yn darllen un o gerddi ei fam, Hedyn](#)

Ffynhonnell hanesyddol 4: *Hedyn* (1971) gan Kate Bosse-Griffiths

(I ateb y cwestiwn, sut y gallwn fod berchen gwreiddiau mewn dwy wlad.)

Hedyn wyf o wlad bell
Wedi ei lyncu gan aderyn treigl
Wedi ei gludo dros y mor gan wennol;
Dsgynnodd ar dir newydd ei aredig
A thafu gwreiddiau

Glaswelltyn wyf ar borfa las
Wedi fy mhlygu gan garn defaid
Wedi fy nghnoi gan ddant bustach
Tyflais yn gnawd byw
Tyfais yn rhan o Gymru

Cyfieithiad Saesneg: *A Seed*

(To answer the question of how one can have roots in two countries.)

I am a seed from a distant land
Swallowed by a migratory bird,
And carried across the sea by a swallow.
I fell in freshly ploughed land,

I took root.



I am a blade of grass in a green field,
I have been bent by the hoof of a sheep,
I have been chewed by the teeth of a cow.
I became living flesh.
I became part of Wales.

Ffynhonnell hanesyddol 5: Ffotograff o Kate Bosse-Griffiths a J. Gwyn Griffiths ar ddiwrnod eu priodas, Pontypridd, Medi 1939



Delwedd: Casgliad y Werin Cymru

Dolen: <https://www.casgliadywerin.cymru/items/1899356>

© Heini Gruffudd



AJR

Trawsgrifiadau

[Clip Sain: Heini Gruffudd yn trafod agwedd Kate Bosse-Griffiths at y Gymraeg](#)

Roedd mam yn amlwg oherwydd y profiadau yn yr Almaen wedi mynd i deimlo yn erbyn awdurdodau gormesol. Roedd hwnna'n bwysig iawn iddi. Ac yng Nghymru roedd hi'n gweld bod yr iaith Gymraeg o dan ormes, heb hawliau, felly roedd hi'n frwd iawn dros y Gymraeg, i berthyn i Gymru, brwd dros y Gymraeg a wedyn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd pan ddechreuodd Cymdeithas yr Iaith. Fe wrthododd hi dalu dirwy parcio achos bod e'n Saesneg, mynd i'r Llys. Cwbl gefnogol i Blaid Cymru hefyd, gweld bod y Blaid yn cynnig ffordd ymlaen i Gymru oedd yn ffordd oedd yn amddiffyn gwareiddiad, ac iddi hi roedd hi'n sicr yn gweld y Gymraeg a Chymru a phosibiliadau i roi ateb i fydd heddychol newydd.

[Clip Sain: Heini Gruffudd yn darllen un o gerddi ei fam, *Hedyn*](#)

Cerdd fach yw hon ysgrifennodd mam yn 1971, flynyddoedd ar ôl dod i Gymru wrth gwrs, pum mlynedd ar hugain ar ôl dod yma, ac mae'n dal i deimlo bod hi'n perthyn i ddwy wlad, roedd gyda hi wreiddiau yn yr Almaen a hefyd erbyn hynny yng Nghymru, a dyma ysgrifennodd hi, 'Hedyn' yw'r teitl.

[...]

Fanna mae'n mynegi yr anhawster mawr o ddod i berthyn i wlad newydd, ei bod hi wedi cael ei chwalu mewn ffordd, wedi cael ei sathru, wedi cael ei chnoi ac eto trwy'r cyfan wedi dod wedyn yn rhan o Gymru.

